

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun **8 Ionawr 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-01/18: Presennol

Cadeirydd ; Cyng Sian Williams;

Cyng. Robert Cadwalader, Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng Elizabeth George; Cyng Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng Elizabeth Reagan

Mr Steffan Jones, Uwch Rheolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd yn bresennol ar gyfer eitem 12

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-01/18 Ymddiheuriadau:

Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Wayne Roberts; Cyng. Robert T Price

3-01/18: Datgan diddordeb

4-01/18 Cadarnhau cofnodion mis Rhagfyr

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith

5-01/18: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

- a. Un Llais Cymru - Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri –ebost 5 Ionawr 2018 – gwahoddiad i ddanfon sylwadau ar Bapur Ymgynghori ar gynlluniau'r Parc a oedd yn wynebu toriad o 10% yn ei gyfraniad grant gan Lywodraeth Cymru. Daeth yn rhy hwyr ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor fel corff.

Penderfyniad: Y Clerc i gylchredeg yr ebost ac aeolodau i ddanfon sylwadau os dymunant.

- b. Gohebiaeth CADW – ebost 3 Ionawr 2018 – yn nodi newid yn y drefn o gerdyn ar gyfer trigolion a oedd yn cael ei brosesu gan y Cyngor i Bass Cadw Cofadail. Roedd angen gwneud cais ar lein ar gyfer rhain – ac mi fyddai pob ymwelydd a oedd â cherdyn trigolion yn cael pass newydd pan fyddant yn ymweld â Chastel Criccieth. Byddai pass yn ddilys am dair blynedd.

6-01/17: Gohebiaeth

- a. Cyngor Gwynedd –Praesept 2018-19 –e- bost 6 Rhagfyr 2017 –yn gofyn i'r Cyngor Tref gadarnhau lefel y praesept ar gyfer 2018-19. Roedd y Cyngor eisoes wedi penderfynnu codi y praesept i £36,000.

Penderfyniad: Cadarnhau y penderfyniad yma gyda Chyngor Gwynedd.

- b. Un Llais Cymru – Ymgynghoriad ar adolygiad o’r Sector Cyngorau Cymuned a Thref - e-bost 12 Rhagfyr yn cadarnhau y camau nesaf o ran paratoi ymateb cyfansawdd drafft gan y sector i’r panel a fyddai yn cael ei ddisbarthu ar ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror. Roedd Un Llais Cymru yn annog bod pob Cyngor yn cyflwyno ei ymateb ei hun i’r panel .
Penderfyniad: roedd y Cyngor eisoes wedi cytuno aros i dderbyn yr adroddiad yma cyn penderfynnu ar ymateb.
- c. Comisiwn y Gyfraith – Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Papur Ymgynghori – e-bost 14 Rhagfyr 2017.
Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth – roedd y Cyngor eisoes wedi penderfynnu ystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2018.
- d. Cyngor Cymuned Llanystumdwy –e-bost 13 Rhagfyr 2017
Derbyniwyd e-bost ynglŷn â’r llinellau melyn diweddar a oedd wedi eu gosod ger y Ganolfan Feddygol Criccieth yn nodi eu bod yn peri anhwylostod i gleifion.
Penderfyniad: Nodwyd nad oedd cwynion wedi dod i law oherwydd gosod y llinellau melyn a bod y maes parcio tu cefn i’r Ganolfan wedi cael ei ymestyn a ddylai bod hyn yn hollol ddigonol ar gyfer ateb y galw. Roedd y Cyngor yn gefnogol i’r llinellau melyn gan fod y darn lân yn un peryglus hebddynt.
- e. Un Llais Cymru – Dod o Hyd i Hyfforddiant – Y Gogledd – Chwefror-Gorffennaf 2018-19 – e-bost 19 Rhagfyr 2017.
Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth ac aros i glywed am ddyddiadau hyfforddiant yng Nghaernarfon.
- f. Cwyn a chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
Nodwyd bod cynwys a chais am wybodaeth pellach wedi ei dderbyn a’i gylchredeg.
Penderfyniad: – cytuno i ymddiheuro i’r unigolyn am ddatgelu data personol yn gyhoeddus yng nghofnodion y Cyngor ar y safle We yn 2016. Roedd y sefyllfa wedi ei ddatrys a’r enw wedi ei dynnu o’r cofnodion. Cytunwyd i drafod ymateb i’r pwyntiau eraill mewn cyfarfod caeedig.

7-01/18: Ceisiadau Cynllunio

Nid oedd ceisiadau cynllunio wedi dod i law erbyn y dyddiad cau ar gyfer yr agenda.

8-01/18 Ceisiadau am gyfraniadau ariannol

Roedd y ceisiadau wedi eu cylchredeg i aelodau. Ystyriaeth o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Penderfyniad:

- Neuadd Goffa Criccieth - £5000
- Dawns i Bawb – dim cyfraniad
- Nyrsys Marie Curie - - dim cyfraniad
- Eisteddfod yr Urdd - - dim cyfraniad
- Clwb Nofio - - dim cyfraniad
- Clwb Pel Droed Llanystumdwy - dim cyfraniad
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru - dim cyfraniad

- Mynwent Newydd Llanystumdwy: £300 gan nodi y byddai'r Cyngor yn barod i ystyried cyfraniad ychwanegol pe bai tir yn cael ei brynu yn y dyfodol neu gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud.

9-01/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth –Cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio 7 Rhagfyr 2017

Roedd adroddiad ar lafar gan y Cyng Elizabeth George wedi ei dderbyn a chylch gorchwyl y **Grŵp** wedi ei gymeradwyo yn y cyfarfod diwethaf..Nodwyd bod gwaith yn mynd yn ei flaen i drafod opsiynau ar gyfer gwaith gorffenedig y prosiect gyda'r Neuadd Goffa.

Penderfyniad: derbyn y cofnodion a oedd wedi eu cylchredeg i aelodau.

10-01/18 Cynllun Cymunedol Criccieth – Adroddiad drafft terfynol 'Ymgynghoriad cyhoeddus Criccieth – datblygu'r Cynllun Cymunedol' :

Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg ac yn cynnig casgliadau ac argymhellion o dan 3 pennawd ar sail dadansoddi sylwadau trigolion ar gynlluniau drafft y Cyngor, holiaduron, llythyrau ac ebyst yn dilyn y Diwrnod Cymunedol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2017 :

- 1. Edrych ar ôl hyn sydd gennym
- 2. Cywiro a datrys gwallau a phroblemau amlwg
- 3. Cynllunio a gwetihredu i'r dyfodol.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad drafft a'i gyfeirio i'r Grŵp Llywio ar gyfer argymhellion i'r Cyngor erbyn Mawrth 2018. Cytunwyd hefyd y dylai'r Cyng Eirwyn Williams nodi diddordeb y Cyngor mewn gosod biniau ail-gylchu o gwmpas y dref ac iddo gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.

11-01/18 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.

Nodwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r cyfreithiwr ar 16 Ionawr 2018.

12-01/18 Torri gwair yn y dref

Diolchwyd i Uwch Rheolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd am fynychu'r cyfarfod i drafod ffigurau diwygiedig ac opsiynau chostau ar gyfer torri/casglu gwair yng Nghriccieth a fyddai'n ychwanegol i'r toriadau cynnal tiroedd torri a gadael yn 2017. Roedd y wybodaeth wedi eu gylchredeg i aelodau.

Penderfyniad: Ar sail y ffigurau a gyflwynwyd .i neilltuo £5k yn y gyllideb ar gyfer gwariant ychwanegol yn 2018 ac i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf blaenoriaethau y Cyngor ar gyfer y gwariant yma. Roedd angen i Gyngor Gwynedd gael penderfyniad y Cyngor erbyn diwedd mis Chwefror.

13-01/18 Goleuadau Nadolig

Dim i'w adrodd

14-01/18: Parcio yng Nghriccieth

Dim i'w adrodd.

15-01/18 Torri Coed yng Nghriccieth

Y Cyng Sian Williams i drefnu cyfarfod gydag Arweinydd y Tîm Bioamrywiaeth a'r Cyng Eirwyn Williams i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i nodi consyrn y Cyngor am y torri coed yn y dref.

16-01/18 Meinciau Tref Criccieth

Yn dilyn y cyfarfod ym Mis Tachwedd roedd y Clerc wedi sgwennu at Cyngor Gwynedd re cyngor am adnewyddu meinciau yr Esplanade – ac yn aros am ymateb.

Aros am adroddiad am y gwaith gytunwyd ar y gweddill.

Penderfyniad: Y Clerc i ail gysylltu gyda Swyddog Cyngor Gwynedd i geisio cael ymateb.

17-01/18 Llwybrau Cyhoeddus

Dim i'w adrodd.

18-01/18: Derbyniadau

Cronfa Dreftadaeth y Loteri: £10,000

19-01/18: Taliadau

- | | | |
|------------------------|---------|-------------|
| • Cyllid y Wlad (PAYE) | £126.60 | Siec 101210 |
| • Cyflog y Clerc | £506.69 | Siec 101211 |

Rhodddwyd caniatad i'r clerch i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar nos **Lun 12 Chwefror 2018.**

****Bydd y rhaglen yma yn cau 3 Chwefror 2018****